**Teitl: Trosedd a Chosb**

| Teitlau | Yr Ateb i Droseddau Casineb Crefyddol? | Ymdrin â throseddwyr – ddoe a heddiw | Profiad personol |
|---|---|---|---|
| **Rhesymeg** | **YMWADIAD:** Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>**Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'**<br>**Drwy ddysgu am Drosedd a Chosb fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:**<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru**<br>**Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:**<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd | | |

<table>
<tr><th>Teitlau</th><th>Yr Ateb i Droseddau Casineb Crefyddol?</th><th>Ymdrin â throseddwyr – ddoe a heddiw</th><th>Profiad personol</th></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">

- Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt

**Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**<br>
Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r **is-lensys isod:**<br>
• Chwilio am ystyr a diben;<br>
• Y byd naturiol a phethau byw;<br>
• Hunaniaeth a pherthyn;<br>
• Awdurdod a dylanwad;<br>
• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>
• Gwerthoedd a moeseg;<br>
• Taith bywyd;

*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.

**Dolenni Defnyddiol:**<br>
**Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance**<br>
**Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities**<br>
**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/**<br>
**Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes**

</td></tr>
<tr><td>Geirfa allweddol</td><td>CYFIAWNDER - trin pobl yn deg.<br><br>CYMOD – dod i berthynas a rhywun ar ôl ffrae.</td><td>TROSEDD – gweithred anghywir y gellir cosbi rhywun amdano yn ôl y gyfraith.</td><td>CAPLAN – Person sy’n gweithio yn enw crefydd arbennig mewn sefydliad, e.e. yn y fyddin, carchar, ysgol, ysbyty – chaplain.</td></tr>
</table>

| **Teitlau** | **Yr Ateb i Droseddau Casineb Crefyddol?** | **Ymdrin â throseddwyr – ddoe a heddiw** | **Profiad personol** |
|---|---|---|---|
| | METTA – caredigrwydd yn llawn o gariad.<br><br>KARUNA – tosturi.<br><br>DEDDF CASINEB HILIOL A CHREFYDDOL - cyfraith i atal casineb yn erbyn pobl oherwydd eu hil neu grefydd.<br><br>CYMUNEDAU FFYDD - grŵp o bobl yn dilyn crefydd neu gredoau arbennig.<br><br>TOSTURI – rhoi eich hun yn esgidiau rhywun arall er mwyn eu sefyllfa a chydymdeimlo.<br><br>GOSTYNGEIDDRWYDD - peidio â chanmol neu wthio chi'ch hun ar draul eraill.<br><br>ISLAMOFFOBIA – casineb yn erbyn credoau a dilynwyr Islam.<br><br>RHAGFARN – barnu heb wybodaeth na phrofiad.<br><br>STEREOTEIPIO - rhoi un disgrifiad ar gyfer pawb sy'n perthyn i grŵp arbennig.<br><br>RHEOL EURAIDD – y rheol sydd ym mhob un o brif grefyddau'r byd i drin pobl eraill fel yr hoffech gael eich trin eich hun. | COSB – y penyd a roddir ar rywun am ryw drosedd neu ddrwg a wnaethant.<br><br>MADDEUANT – bod yn barod i anghofio am y drwg a fu gan symud ymlaen.<br><br>CYFIAWNDER – sicrhau'r hyn sy'n iawn ac yn deg.<br><br>DIWYGIO – newid er gwell.<br><br>ADFERIAD – gwella person a fu yn ddrwg i fod yn dda.<br><br>DIENYDDIO – gosod rhywun i farwolaeth fel cosb.<br><br>Y GOSB EITHAF – y gosb fwyaf posib, e.e. crogi neu cadair drydan er mwyn cosbi llofrudd.<br><br>MERTHYR – person sy'n dewis marw dros yr hyn y mae'n ei gredu. | GWEINIDOGAETH – gwaith mae person yn ei wneud dros Dduw – *ministry*.<br><br>CATEGORI B - mae troseddwyr yn cael eu gosod mewn categori wrth gael eu hanfon i'r carchar, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd, neu'r angen i gadw'r carcharor o dan glo. Nid oes angen unedau diogelwch dwys ar droseddwyr categori B ond rhaid i'r carchar fod yn un caeedig fel nad oes modd iddo/iddi ddianc.<br><br>TRAIS - gweithred sy'n achosi niwed corfforol / gorfodi person arall i gael rhyw - *violence / rape.*<br><br>YSGRIFAU SANCTAIDD - llyfrau sy'n cyflwyno gwybodaeth am Dduw neu am grefydd arbennig - *holy writings/holy scripture.*<br><br>BREGUS - person sy'n debygol o gael ei niweidio neu o ddioddef mewn rhyw ffordd – *vulnerable*.<br><br>TYSTIO - siarad yn bersonol am ddigwyddiad/profiad - *to witness, to attest*.<br><br>HONNI – *to claim, to assert*.<br><br>EDIFEIRIOL - teimlo'n sori am wneud rhywbeth - *repentant*. |

| **Teitlau** | **Yr Ateb i Droseddau Casineb Crefyddol?** | **Ymdrin â throseddwyr – ddoe a heddiw** | **Profiad personol** |
|---|---|---|---|
| | JOHN LENNON – un o sylfaenwyr y Beatles.<br><br>ADL – ANTI DEFAMATION LEAGUE – mudiad sy'n ceisio atal pob math o gasineb yn erbyn pobl. | | EDIFARHAU - teimlo'n sori am wneud rhywbeth - *to repent*.<br><br>ADFERIAD - pan mae person yn cael ei ail sefydlu o fewn cymdeithas ar ôl cyfnod o droseddu neu o afiechyd - *rehabilitation*.<br><br>CYFIAWNDER – tegwch, yr hyn sy'n iawn – *justice*.<br><br>ADRAN YMCHWILIAD TROSEDDOL – *C.I.D.*<br><br>YSBEILIAD ARFOG – *armed robbery*.<br><br>TROSEDD – wrth dorri'r gyfraith mae person yn cyflawni trosedd – *crime*. |
| **Geiriau chwilio** | Maddeuant<br>Cosb<br>Troseddwyr<br>Cyfiawnder<br>Islam<br>Cristnogaeth<br>Bwdhaeth<br>9/11<br>Peace Mala | Shari'ah<br>Dydd y Farn<br>Merthyr<br>Beibl<br>Hen Destament<br>Testament Newydd<br>Qur'an | Caplan<br>Troseddwyr<br>Troseddu<br>Trosedd<br>Carchar<br>Edifeiriol<br>Edifeirwch<br>Criminoleg<br>Cyfiawnder<br>Maddeuant<br>Cosb |

<table>
<tr><th>Teitlau</th><th>Yr Ateb i Droseddau Casineb Crefyddol?</th><th>Ymdrin â throseddwyr – ddoe a heddiw</th><th>Profiad personol</th></tr>
<tr><td>Tasgau dosbarth</td><td colspan="3">Tasgau estynedig sy’n gofyn i’r disgyblion i ddefnyddio’r 3 erthygl, cyfeirio at gredoau/dysgeidiaethau ac arferion crefyddol wrth ymateb i gwestiynau sylfaenol/crefyddol.<ul><li>Esboniwch y gwahaniaeth rhwng trosedd a phechod.</li><li>Sut mae crefydd yn ‘delio’ gyda phechodau a phechaduriaid/troseddwyr? Pam maen nhw’n gweithredu fel hyn?</li><li>Beth alla i ei wneud i atal digwyddiadau a throseddau casineb crefyddol ar fy nghyfryngau cymdeithasol? Ydw i’n rhan o’r datrysiad neu’n rhan o’r broblem?</li><li>Fe wnaeth Iesu gymysgu a bwyta gyda phechaduriaid ac fe ddywedodd wrth bobl oedd yn cwyno am hyn, “Nid ar y cryfion ond ar y cleifion y mae angen meddyg’ (Mathew, Pennod 9). Beth yw’r ystyr yr adnod? Sut allai fod yn sbardun i Gristnogion i helpu carcharorion (neu sut mae’r adnod hwn yn esbonio pam mae rhai Cristnogion yn helpu carcharorion)?</li></ul></td></tr>
<tr><td>Tasgau ymestynnol</td><td><ul><li>A yw’n bosibl i faddeuant a chosb gyd-fynd a’u gilydd?</li><li>Ai cosbi yw’r ffordd orau i ymdrin â throsedd?</li><li>Ymchwiliwch fwy i hanes John Lennon. Gwrandewch ac edrychwch ar eiriau’r gan ‘Imagine’ a cheisiwch ychwanegu eich geiriau eich hun yn ceisio annog cariad a chymod rhwng pobl. Ceisiwch ysgrifennu geiriau Cymraeg i’r gân.</li><li>Eglurwch ystyr y stori am y ddau flaidd. A yw’n gyngor da?</li><li>Cynlluniwch ddigwyddiad fyddai’n dod a chymunedau ffydd at eu gilydd?</li></ul></td><td><ul><li>Lluniwch dwy golofn o dan y teitlau: Cosbau Ddoe / Cosbau Heddiw;<br>e.e. Cansen mewn ysgol / Cadw i mewn amser cinio;<br>carchar am gyfnod / gwaith cymunedol.</li><li>Mae Prydain yn carcharu canran uwch o bobl na’r rhan fwyaf o wledydd Ewrop. I ba raddau mae hyn yn llwyddiannus? Chwiliwch am ystadegau ail droseddu.</li><li>‘Rhaid cosbi troseddwyr yn llym’.<br>Beth yw’r dadleuon dros ac yn erbyn y gosodiad yma?</li><li>Mae Gweddi’r Arglwydd yn cynnwys y geiriau ‘a maddau inni ein dyledion’. Pa neges sydd yma ar gyfer delio â throseddwyr?</li></ul></td><td><ul><li>Dychmygwch eich bod yn droseddwr ifanc wedi ei garcharu am y tro cyntaf. Dychmygwch sut fyddech chi’n teimlo yn ystod eich noson gyntaf yn y carchar. Ysgrifennwch baragraff yn disgrifio eich teimladau.</li><li>Lluniwch restr o’r pethau y byddech chi’n eu colli fwyaf wrth gael eich anfon i’r carchar.</li><li>Mae person sy’n edifarhau yn dweud sori am wneud rhywbeth.<br>Dychmygwch eich bod wedi torri’r gyfraith mewn rhyw ffordd, ac ysgrifennwch weddi sy’n dweud sori wrth Dduw am wneud</li></ul></td></tr>
</table>

| Teitlau | Yr Ateb i Droseddau Casineb Crefyddol? | Ymdrin â throseddwyr – ddoe a heddiw | Profiad personol |
|---|---|---|---|
| | • Cynlluniwch symbol i gynrychioli cyd-weithio a dealltwriaeth rhwng cymunedau aml-ffydd.<br>• Ymchwiliwch i un digwyddiad aml-ffydd yn eich ardal. A oedd yn llwyddiant?<br>• 'Ni ddaw crefyddau'r byd byth i ddeall eu gilydd.' Trafodwch. | • Un mudiad sydd yn ymgyrchu dros ddileu'r gosb eithaf ar draws y byd yw Amnest Rhyngwladol (*Amnesty International*). Edrychwch ar y wefan – chwiliwch am fideos perthnasol i'w trafod gyda'ch cyd-ddisgyblion. Nodwch wybodaeth am rai achosion penodol sydd wedi cael sylw ganddynt.<br>• Mae'n anodd iawn i gyn-garcharorion setlo nôl mewn cymdeithas. O ystyried ymdrechion Eglwys Noddfa, Caernarfon a meddyliwch am ddulliau ymarferol o helpu, e.e. cartref, gwaith, cymdeithasu, ail uno â'r gymuned. Lluniwch bwyntiau a chamau pendant ar gyfer eu helpu.. Beth am lunio taflen neu boster ar y thema?<br>• Mae'r deunydd darllen yn sôn am Gristnogaeth ac Islam. Ceisiwch ddarganfod mwy am farn y crefyddau eraill o ran ymdrin â throseddwyr. Gallwch gychwyn gyda'r wefan www.bbc.co.uk/education/subjects/zb48q6f gan ddweis '*Ethics'* ac yna '*Crime and Punishment*'.<br>• Disgyblion yn ymchwilio i brif grefyddau'r gwledydd e.e. pa mor Gristnogol yw Texas? Pa mor Fwslimaidd yw Iran/Irac? Oes dysgeidiaeth grefyddol tu ôl i benderfyniad China i ddienyddio troseddwyr? | hynny<br>**Neu**<br>Dychmygwch eich bod wedi torri mewn i dŷ, ac wedi gwneud difrod. Ysgrifennwch lythyr i ddweud sori wrth y perchnogion.<br><br>• Lluniwch restr o *Pros/Cons* anfon troseddwyr i'r carchar.<br><br>• Gwnewch boster sy'n rhybuddio person ifanc i feddwl cyn torri'r gyfraith.<br><br>• Sut mae eu cred/dysgeidiaeth Cristnogaeth yn dylanwadu ar safbwyntiau NPD, JD, IS tuag at drosedd a chosb?<br><br>• Meddai NPD, "mae'r caplaniaid yno i helpu pawb – ffydd neu beidio." Sut mae'r caplaniaid yn helpu'r troseddwyr?<br><br>• I ba raddau mae crefydd yn helpu credinwyr i ddeall adferiad edifeirwch a maddeuant? Cyfeiriwch at Gristnogaeth ac ymchwiliwch i ddysgeidiaethau un crefydd arall. Gweler hefyd safbwyntiau'r dyneiddwyr am drosedd a chosb. https://understandinghumanism.org.uk/perspectives/ |

| Teitlau | Yr Ateb i Droseddau Casineb Crefyddol? | Ymdrin â throseddwyr – ddoe a heddiw | Profiad personol |
|---|---|---|---|
| **Adnoddau pellach** | Carchar Caerdydd:<br>http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-18843576<br><br>Faith and Pastoral Care for Prisoners<br>https://www.justice.gov.uk/search?collection=moj-matrix-dev-web&form=simple&profile=_default&query=chaplaincy+wales<br><br>Carchar y Parc<br>https://www.justice.gov.uk/contacts/prison-finder/parc/regime<br><br>Carchar y Berwyn -<br>http://www.justice.gov.uk/contacts/prison-finder/berwyn-prison-information/regime<br><br>http://www.itv.com/news/wales/2016-02-16/religious-hate-crime-is-on-the-rise-in-wales/ | https://www.christiantoday.com/article/new.christian.charity.to.help.exoffenders.start.over/22447.htm | Stori Sacheus a Mathew yn y Testament Newydd<br><br>http://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/Cyngor/Trosedd-Casineb.aspx<br><br>Swyddfa Gartref - ystadegau<br>https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/652136/hate-crime-1617-hosb1717.pdf<br><br>Prosiect SORI - Supporting Offenders through Restoration Inside<br>http://www.seeyousoon.me.uk/pdf/130331soriarticle.pdf |